OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1306 (Cy. 227)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010 (Dirymu) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Hydref 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Hydref 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Hydref 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 17(2), (3) a (3ZAA) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw sefydliadau cynrychioliadol y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(10) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010 (Dirymu) 2019 a deuant i rym ar 31 Hydref 2019.

### Dirymu

**2.** Mae Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010(**2**) wedi eu dirymu.

*Ken Skates*
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

3 Hydref 2019

(**1**) 1984 p. 27. Diwygiwyd adran 17(2) gan baragraff 28(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraff 25 o Atodlen 4 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40), ac Atodlen 8 iddi. Mewnosodwyd adran 17(3ZAA) gan adran 26(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4)>.

(**2**) O.S. 2010/1512 (Cy. 138).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn sy'n dirymu'r terfyn cyflymder uchaf o 50 milltir yr awr ar gerbytffordd tua'r gorllewin traffordd yr M4 yn Rogiet yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r dwyrain o linell ganol trosbont Station Road hyd at bwynt 752 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol trosbont Station Road. O ganlyniad, bydd y terfyn cyflymder cenedlaethol yn gymwys i'r gerbytffordd a enwyd pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn oherwydd ni fydd y Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar gostau busnes.